Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth MID 05-01(p.1)

Dyddiad: Dydd Gwener 7 Rhagfyr 2001

Amser: 10.30am hyd 1.00pm

Lleoliad: Theatr Brycheiniog, Aberhonddu

Arolwg Iaith Gymraeg Pwyllgor Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cefndir - disgrifiad o natur ieithyddol Powys (detholiad o Gynllun Iaith Gymraeg Powys)

‘Mae dros 24,000, neu 20% o`r bobl a wasanaethir gan y Cyngor yn siarad Cymraeg. Serch hynny, mae`n gamarweiniol i feddwl am y Sir yn nhermau canran, a gellir cael syniad mwy cywir o`i chymeriad trwy feddwl yn nhermau daearyddol. Y ddwy ardal fwyaf Cymreigaidd yw Gogledd-Orllewin Maldwyn a rhannau Gorllewinol a De-Orllewinol Brycheiniog, gan gynnwys Ystradgynlais, Dyffryn Tawe Uchaf a`r ardaloedd cyfagos. Yn yr ardaloedd yma, ceir defnydd helaeth beunyddiol o`r iaith Gymraeg.

Saesneg yw iaith ardaloedd Dyffryn Hafren a rhannau Dwyreiniol Maldwyn, Maesyfed a rhan helaeth o Sir Frycheiniog gan gynnwys Dyffryn Wysg. Serch hynny, mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu`n raddol yn yr ardaloedd yma, yn enwedig yn y trefi mawr lle maent bellach yn ffurfio lleiafrifoedd sylweddol sy`n cynyddu`n raddol. Er enghraifft, mae`r 1,407 o siaradwyr Cymraeg yn y Drenewydd, er yn 14% o boblogaeth y dref, yn fwy na`r 1,185 o siaradwyr Cymraeg a welir ym Machynlleth sy`n ffurfio 60% o boblogaeth y dref.

Mae'r canrannau a'r nifer o Siaradwyr Cymraeg y Siroedd fel a ganlyn:

Maldwyn - 12,200 - 23.5%

Maesyfed - 2,900 - 8.5%

Brycheiniog - 9,200 - 23%

Nodwedd nodedig yn y blynyddoedd diweddar yw`r cynnydd yn y nifer o bobl ifanc sy`n siarad Cymraeg, i fwy na 33% o`r boblogaeth yn y grp oedran 5 - 15 gyda`r cynnydd yma`n amlwg o fewn y tair Sir. Adlewyrcha hyn yr ymarferion a`r polisïau cadarn i hyrwyddo dysgu`r Gymraeg, ac addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgolion cynradd ag uwchradd ym Mhowys.

Ymddengys felly bod y cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn y trefi mawrion a`r cynnydd ymhlith pobl ifanc yn gyffredinol yn awgrymu y bydd yr angen a`r gofyn am wasanaethau trwy`r Iaith Gymraeg yn fwy eang yn y dyfodol - ynghyd â'r angen i ddarparu gwasanaethau a chyfleon hamddena, drwy gyfrwng y Gymraeg .

Mae`r diddordeb cynyddol yn y defnydd o`r Iaith Gymraeg i`w weld yn nhwf gweithgareddau a sefydliadau Cymraeg o fewn y Sir, nid yn unig addysg ond mewn grwpiau chwarae, cymdeithasau a gweithgareddau diwylliannol, achlysuron a gweithgareddau pobl ifanc, grwpiau dysgu, papurau bro ac ati.

Mae gan prif gyrff addysgiadol a diwylliannol y Gymraeg megis yr Urdd, Mudiad Ysgolion Meithrin a Merched y Wawr gynrychiolaeth dda a gweithgar ym Mhowys, ac mae'r gweithgaredd hefyd yn ymestyn at nifer o gyrff eraill megis Mudiad y Ffermwyr Ifainc a Sefydliad y Merched sy'n cario dimensiwn Iaith Gymraeg gref mewn rhai ardaloedd a gweithgareddau, ac mae eisteddfodau a gweithgareddau lleol yn hyrwyddo'r Gymraeg a'r diwylliant yn arbennig'.

……..

Cyflwyniad

Cyflwynwyd tystiolaeth ysgrifenedig i'r Cynulliad ym Mis Gorffennaf, ynddo lleisiodd y Cyngor safbwyntiau trigolion y sir - barn a gasglwyd fel rhan o broses ymgynghori eang lle cafwyd ymatebion gan dros 150 o bobl o bob pegwn ieithyddol. Ymdrech oedd y dystiolaeth i grisialu barn trigolion Powys am sefyllfa'r iaith Gymraeg yn eu dalgylch fel y gallai'r Cynulliad fesur a phwyso'r dystiolaeth ac ystyried ym Mha ffordd i ymateb.

…….

Cyfyngwyd y cyflwyniad tystiolaeth lafar hwn i drafod rhai syniadau a mesurau yn unig. Digwydd hyn er mwyn osgoi dyblygu. Fodd bynnag y mae cyfraniad y Cyngor, Y Consortiwm Cymraeg i Oedolion a chyflwyniadau o blith yr ifanc yn rhai cysylltiol.

Rhaid cydnabod mai tystiolaeth ar sail profiad yw llawer o'r hyn a ddefnyddiwyd fel sail i'n hawgrymiadau. Digwydd hyn i raddau yn sgil absenoldeb unrhyw wybodaeth ystadegol ond hefyd gan ein bod yn gosod pwys a gwerth ar brofiad swyddogion a phreswylwyr.

1. Datblygu Economaidd

Symudiadau poblogaeth yng nghefn gwlad

Mae economi a chymdeithas mewn ardaloedd gwledig led led Ewrop yn newid yn gyflym yn wyneb globaleiddio, ailstrwythuro economaidd, mudo a newidiadau eraill mewn polisïau cymdeithasol. Y mae effaith y newid yn esgor ar oblygiadau gwahanol i ardaloedd gwahanol ac i grwpiau

cymdeithasol gwahanol mewn cyd-destun gwledig. Wrth i werth newydd gael ei osod ar y ddelfryd o fyw bywyd mewn ardaloedd gwledig, amgylchedd lân iach ac ati gwelir fod 64% o ardaloedd gwledig Ewrop ar dyfu a 42% yn dioddef effeithiau diboblogi. (Papur EU 1997, 10) .

Dim ond rhai grwpiau o bobl a dim ond rhai ardaloedd sydd yn rhan o'r broses yma yn newid ym Mhowys ac y mae ymchwil a gynhaliwyd drwy wledydd Prydain yn cadarnhau tueddiadau o'r fath e. e Newby 1985: *"As prices inexorably rise so the population which actually achieves its goal of a house in the country becomes more socially selective, planning controls and rural houses have become - in effect if not intent - instruments of social exclusivity''.*

Yn achos Powys, ac ar sail adroddiadau'r cyhoedd, mae gofyn rhoi ystyriaeth i effaith mudo poblogaeth ar iaith a diwylliant cymunedau Cymraeg yn ardaloedd Bro Ddyfi; Dyffryn Banw a Dyffryn Tanat - sef ardaloedd Cymreiciaf Gogledd Orllewin Maldwyn.

Creu gwaith yng nghefn gwlad

Y mae'r newid yn yr economi a'r symud poblogaeth yn cael effaith ar swyddi.

Sonia papur yr Undeb Ewropeaidd (1997, 15) am newid pwyslais economaidd: Amaethyddiaeth yn peidio â bod yn brif ffynhonnell cynhaliaeth economaidd a'r gwasanaethau cyhoeddus - addysg a iechyd, hefyd twristiaeth yn dod yn ei le. Ymhellach y mae ymdrechion y llywodraeth yn anelu at hyrwyddo diwydiant mentergarwch. Mae'r Undeb Ewropeaidd hefyd yn rhagdybio mai i'r cyfeiriad hwn y bydd economi cefn gwlad symud yn y dyfodol.

Dylid mesur i ba raddau mae cymunedau cefn gwlad Powys, sydd o draddodiad amaeth a chyflogaeth sector cyhoeddus (y prif gyflogwr yng Nghymru), yn medru addasu i'r newid hwn a beth yw effaith y newid pwyslais ar yr iaith Gymraeg. A oes cyfle i'r Cynulliad fanteisio ar y newidiadau a cheisio meithrin agwedd meddwl cadarnhaol a chreadigol tuag at yr iaith Gymraeg o fewn cynlluniau datblygu economaidd e.e. digwyddodd hyn eisoes yn achos sefydlu cwmnïau teledu annibynnol. Hefyd a oes cyfle i'r Cynulliad greu fframwaith newydd bwrpasol, ar gyfer datblygu economaidd a chynllunio, sy'n gosod lle canolog i'r iaith Gymraeg?

Argymhellion:-

- **Newid mewn polisi**: Yn ei Bapur Gwyn, Towards a Development Strategy for Rural Scotland 2000, nodwyd gan Senedd Yr Alban y dylai pobl fod yn destun ac nid gwrthrych datblygiadau economaidd: Ceir enghreifftiau o weithredu yn y modd hwn yn Ewrop. e.e protestiadau ar y cyfandir yn esgor ar newid polisïau er lleihau cost tanwydd yng nghefn gwlad. Awgrymwn y dylid anelu at gael polisïau ar sail yr egwyddor uchod ar gyfer cymunedau Cymraeg ardaloedd mwyaf gogleddol a Gogledd-orllewin Maldwyn.

- **Casglu gwybodaeth** Y mae gofyn casglu gwybodaeth wrthrychol er mwyn hysbysu'r broses gynllunio a datblygu. Gallai'r Cynulliad wneud hyn drwy sicrhau polisi cenedlaethol cadarnach ar gyfer yr iaith Gymraeg. e.e gallai'r polisi gael ei ail eirio i awgrymu y dylai

Awdurdodau gynnal arolygon ieithyddol cyson, arolygon anghenion tai, asesiadau patrymau mudo, defnydd lleol o ail gartrefi ac ati. Byddai hyn yn sicrhau cyd-destun i ddod i benderfyniadau lleol. Mae Cyngor Sir Powys hefyd yn cefnogi argymhellion Dr Mark Tewdwr-Jones:-

> *"Mewn perthynas â'r angen am ymchwil pellach ac ymarfer da. Dylai'r cynulliad gomisiynu ymchwil naill ai ar ymarferoldeb mesurau newydd "arloesol" i gwrdd â materion ieithyddol o fewn cynllunio neu astudiaeth o'r berthynas rhwng iaith, cynllunio a chymuned. Fel rhan o'r ymchwil hwn, cam hanfodol fyddai asesu i ba raddau y defnyddiwyd Cylchlythyr 53/88 a TAN20 yn ymarferol gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ar Arolygaeth Gynllunio ac ym mha sefyllfaoedd".*

Byddai'r Cyngor Sir yn barod i gydweithio gyda'r Cynulliad pe byddid am dreialu cynlluniau o'r fath.

<u>Tai yng nghefn gwlad</u>

Yn Phillips 1993 ceir tystiolaeth mai pobl gefnog yw'r mwyafrif o'r rhai sydd yn symud i gefn gwlad, rhai sydd am ymddeol neu weithio o gartref tra mai gadael cefn gwlad yw hanes pobl ifanc. Yn ein hymateb i ddogfen y Cynulliad "Gwell Cartrefi i Bobl yng Nghymru". fe nodwyd fod parhad yr iaith Gymraeg a chefnogi twf yn dibynnu ar amrediad o faterion socio-econmaidd a demograffig llawer ohonynt tu allan i reolaeth yr Awdurdod. Gallai'r Cynulliad roi arweiniad i Awdurdodau ar nifer o faterion a fyddai o les i bobl leol ar y mater hwn:-

Argymhellion:-

Cyfyngu ail werthu tai a brynwyd o dan yr **hawl i brynu** i "bobl lleol". Mewn ardaloedd lle mae'r iaith Gymraeg yn cael ei siarad yn eang gallai hyn gynorthwyo i ddarparu tai rhesymol a pherchnogaeth o fewn cyrraedd pobl leol, yn arbennig lle fo'r farchnad dai yn llewyrchus.

Hyrwyddo **tai pris isel** drwy gynllunio perchnogaeth lle fo'r Cyngor neu landlord cymdeithasol cofrestredig yn gwneud cyfraniad cychwynnol o hyd at 50% tuag at gost yr eiddo hyd at swm penodedig. Gellid talu 30% yn ôl i'r landlord ar unrhyw amser ond ar unrhyw gyfrif, bydd rhaid ei dalu yn ôl pan fyddai'r eiddo yn cael ei werthu.

Y mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn comisiynu Asesiad Anghenion Tai a gobeithir y bydd hyn yn hysbysu unrhyw raglenni datblygu grantiau ar gyfer tai cymdeithasol (ar gyfer cynlluniau prynu cartrefi pris isel a chartrefi ar rent fforddiadwy) ac yn y Cynllun Datblygu Unedol (ar gyfer cynnwys tai fforddiadwy o fewn stadau tai newydd eu datblygu) yn Sirol ac yn lleol. **Gallai'r Asesiad Anghenion Tai hefyd gael ei ddefnyddio i gasglu gwybodaeth am gefndiroedd ieithyddol** ac ethnig er y byddai'n rhaid i ni drafod hyn gyda'r ymgynghorwyr sy'n gwneud y gwaith ar ein rhan.

Efallai fod angen **adolygu polisi iaith gosod tai** gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i sicrhau bod cydraddoldeb rhwng anghenion tai a chynaladwyaeth cymunedau lleol.

Gallai'r Cyngor ystyried **cynyddu Treth y Cyngor ar ail gartrefi** i tua 200%. Fodd bynnag, dylid gochel wrth ystyried hyn. Mae'n bosib na fyddai rhywun sydd yn gallu fforddio cadw ail gartref yn canfod treth Cyngor ychwanegol yn fwrn a fyddai'n eu rhwystro, ac os yw'r canlyniad yn golygu bod cartrefi yn wag, yna byddai'r cymhelliad a'r canlyniad i bolisi o'r fath yn un a fyddai'n cael ei gwestiynu.

Y mae angen i ni dalu sylw i ymroddiad y Cyngor i ymdrin â thlodi a dieithrio cymdeithasol a sut i gynnwys ystyriaethau iaith Gymraeg.

2. Teulu a Chymuned

Cynlluniau Iaith Statudol

O'u gweithredu yn unol â'u mesurau, amserlenni a thargedau fe allai cynlluniau iaith statudol gyflawni llawer: y mae gwaith datblygol yn digwydd a cheir enghreifftiau o ymarfer da mewn sawl cyfeiriad e.e. Iaith Gwaith, Cynllun partneriaethol i ddysgu Cymraeg yn y gweithle drwy Bowys. Fodd bynnag nid pob mesur a gynhwysir mewn cynlluniau iaith yn weithredol i'r un graddau. Y mae eu heffeithiolrwydd yn ddibynnol ar yr adnoddau hyrwyddo ac arolygu sydd ar gael. e.e. Dengys Arolwg Pum Mlynedd Newidiem o waith Bwrdd Yr Iaith Gymraeg ddiffyg adnoddau digonol ar gyfer arolygu gweithrediad Cynlluniau iaith.

Y mae rhai o'r gwendidau a berthyn i weithrediad Cynlluniau iaith ar lefel lleol yn rhai a etifeddir o rywle arall e.e. prosiectau a chynlluniau partneriaethol wedi eu hariannu trwy grantiau/arian cyhoeddus. Y mae'n fwriad gan y Llywodraeth bresennol i hyrwyddo gweithredu aml asiantaeth. Y ddelfryd yw canolbwyntio ar y sawl y darperir gwasanaeth iddo yn hytrach na'r darparwr (pa bynnag sector y perthyn iddo). Yn aml dirnadaeth trigolion Powys yw mai trwy ewyllys da y cynhwysir yr elfen iaith Gymraeg o fewn llawer o'r prosiectau hyn. Y mae nifer o resymau dros hyn:-

- Dim mesur o fewn cynlluniau iaith yn cyfeirio at bartneriaeth (lle na fo grym nac awdurdod gan unrhyw bartner unigol lleol dros y partneriaid eraill).

- Diffyg polisi cyson ac eang gan y corff sy'n ariannu.

- Dim mecanwaith clir mewn bod i sicrhau rheolaeth dros ddarparu i, gweithredu dros na thargedu gwasanaethau i gymunedau Cymraeg eu hiaith Yn aml y mae dehongliad unigolion mewn sefyllfa o awdurdod

  yngln ag anghenion ieithyddol cymuned Gymraeg yn wahanol i ddisgwyliadau a phrofiadau'r gymuned honno.

- Gwendidau rheolaeth lleol e.e. diffyg cefnogaeth iaith Gymraeg o fewn tîm partneriaethol.

- Dim ond mudiadau sydd eisoes â'r adnoddau a'r amser sy'n gallu cymryd rhan mewn gwaith partneriaethol. Nid oes presenoldeb etholedig yn ymwneud â rhai prosiectau aml

bartneriaethol. Y mae aneglurdeb yngln ag atebolrwydd democrataidd.

- Nid yw'r mudiadau Cymareg yn abl i roi o'u hamser oherwydd diffyg adnoddau.

e.e.

Ers dechrau'r 90au mae ymgyrchoedd wedi bod i geisio sicrhau datblygiadau cymunedol yng nghefn gwlad - prosiectau fel Leader. Defnyddiwyd y prosiectau hyn fel cynlluniau peilot, eu bwriad oedd sicrhau atebion gwreiddiol i broblemau gwledig gan bwyso ar adnoddau cyswllt â'r bobl leol. Y nod oedd hyrwyddo a datblygu'r gymuned ei hun a'i chryfhau a'i gwarchod rhag dylanwadau cryf cystadleuaeth globaleiddio byd eang. Fodd bynnag dyw hi ddim yn glir a yw'r prosiectau hyn yn cynrychioli trwch y boblogaeth leol. Gallai cryfhau a gwarchod yr iaith Gymraeg fod yn rhan cwbl ddilys o amcanion proseictsu fel hyn. Yn wir fe ariannwyd Mentrau iaith gan gyllid Leader mewn rhai ardaloedd yng Nghymru e.e. Môn, Penfro, Caerfyrddin ac ati.

Wrth i'r Cynulliad glustnodi £83 miliwn o'i gyllid dros dair blynedd ar gyfer cynlluniau 'Cymunedau'n gyntaf' - cynllun y rhagwelir a fydd ar waith am gyfnod o ddeng mlynedd. Gwelir yma gyfle i ofalu am ofynion ieithyddol. Mewn ardaloedd lle fo ewyllys gref a dealltwriaeth ynglyn a gweithredu'n ddwyieithog bydd canllawiau presennol y Cynulliad yn sicr o fod yn ddigon i ganiatáu i hynny ddigwydd. Fodd bynnag canllawiau pen agored a chyffredinol ydynt y gellir eu denghongli mewn amryfal ffyrdd.

e.e.

Yn y swydd ddisgrifiad stoc a baratowyd gan y Cynulliad dynodir y gellir clustnodi'r Gymraeg naill ai'n hanfodol neu ddymunol ar gyfer swydd cydlynydd prosiect Cymunedau'n gyntaf. Eto'i gyd ni roddwyd canllaw yn argymell pryd y byddai medr yn yr iaith Gymraeg yn hanfodol i gydlynydd poroseict a phryd na byddai. Braslun cwbl agored ydyw. Nid yw'r canllawiau'n mynd yn ddigon pell.

Ceir enghreifftiau lu o weithio aml asiantaeth tebyg e.e. prosiectau wedi eu cyllido gan arian ewropeaidd, Partneriaeth blynyddoedd cynnar ac ati.

Argymhellion:-

Lle fo arian cyhoeddus yn cael ei ddyrannu i bartneriaeth dylai'r Cynulliad: -

- Bennu **canllawiau** ac amrediad cyflawn o amodau a mesurau rheoleiddio i bartneriaethau ar **sut i weithredu polisïau iaith**

- Osod arweiniad trwy weithredu cynlluniau peilot - **arfer da**.

- Osod gofyniad ar gyrff cyhoeddus i arwain ar fater polisi iaith ond **gosod disgwyliad** ar bob partner i ddarparu a gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg lle fo hyn yn addas ar gyfer y gymdeithas gan goleddu gwerthoedd ieithyddol sydd yn gydnaws â gwerthoedd ieithyddol y

gymdeithas gyfan y maent yn eu gwasanaethu.

- **Sianelu a chlustnodi arian cyhoeddus** yn deg gan bennu swm ar gyfer gweithgareddau cyfrwng y Gymraeg er sicrhau nad yw cymunedau Cymraeg yn cael eu heithrio o gynlluniau prif ffrwd.

- Y dylai'r Cynulliad **arolygu** cydymffurfiaeth iaith ar ffurf targedau meintiol sydd ynghlwm a chyllid.

Pe byddai'r Cynulliad am arbrofi drwy gyfrwng prosiectau Cymunedau'n gyntaf y mae Cymuned Ystradgynlais a Bro Ddyfi yn ddwy ardal ac ynddynt ganrannau uchel o siaradwyr Cymraeg lle gellid gweithredu cynllun peilot.

Ystradgynlais - 60.56%; Machynlleth - 60.37%; Llanbrynmair - 68.31%; Glantwymyn - 71.17%; Cadfarch - 69.68%.

Addysg

Dros y blynyddoedd bu addysg cyfrwng Cymraeg ar bob lefel yn fodd amlwg o sicrhau parhad yr iaith - prin yw'r angen i gofnodi enghreifftiau, a fodd bynnag, byddent yn rhy niferus i'w cynnwys.

Yn ystod ymgynghoriad Powys mynegwyd barn gre yn amgylchynu maes addysg bellach a hyfforddiant (y fformiwla gyllido a threfniadau ar gyfer cyflwyno addysg bellach trwy gyfrwng y Gymraeg). Mewn mwy nag un o'n cyfarfodydd cyhoeddus gofynnwyd i Gyngor Sir Powys arwain y ddadl drwy gyfrwng y broses arolygu hon a cheir sylwadau cynhwysfawr yn ein tystiolaeth ysgrifenedig.

Gwelwyd, dros amser, trwy brofiad, ac wrth ymgynghori fod ysgolion cynradd ac uwchradd yn gyfrwng cryf ei ddylanwad ar ddatblygiad cymeriad y gymuned o'i chwmpas. Gwnaed argymhellion yn ein cyfarfodydd ymgynghorol yn awgrymu y gallai polisi ysgol gyfrannu ymhellach at gyfnerthu Cymreictod y gymuned o'i chwmpas drwy eu bod yn rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i'r di Gymraeg yn y cylch, yn esbonio sut i fynd ati i ehangu ar eu sgiliau ieithyddol.

Nodwyd (gan unigolion oedd wedi dysgu Cymraeg eu hunain yn oedolion) fod diffyg addysgu a rhannu gwybodaeth ymysg y di Gymraeg am y diwylliant, iaith a'r genedl; enwyd rhieni di-gymraeg fel grp targed a fyddai'n elwa o dderbyn cyngor a gwybodaeth fel eu bod yn gallu cefnogi eu plant a theimlo'n rhan o'r gymuned y maent yn byw ynddi; i ddarparu cefnogaeth ar y We i rieni fel eu bod yn gallu cynorthwyo eu plant gyda gwaith cartref cyfrwng Cymraeg; i gynghori a chefnogi rhieni pan fo'u plant yn trosglwyddo o addysg cyn oed ysgol i addysg gynradd ac o addysg gynradd wedyn i ddilyn eu haddysg uwchradd. Byddai darpariaeth ddysgu Cymraeg fel ail iaith i oedolion hefyd yn rhan o'r gefnogaeth hwn. Yn ogystal â rhieni ifainc y mae mewnfudwyr hefyd yn grp targed yr un mor ddilys. Er gwaethaf ymdrechion ar ran unigolion brwdfrydig nodwyd mai gwendid oedd y ffaith nad oedd swyddogaeth benodol i rywrai wedi eu lleoli mewn man priodol i arwain y gwaith hwn. O sefydlu swyddogaeth o'r fath byddai mwy o gefnogaeth i ymdrechion a wneir mewn ysgolion.

Nodwyd y byddai newydd ddyfodiaid hefyd yn grp targed priodol ar gyfer menter debyg. Teimlwyd mai gwaith y Cynulliad fyddai rhoi arweiniad ac adnoddau fel y gellid gweithredu'n effeithiol ar lefel lleol.

Byddai cynllun o'r natur hwn yn gofyn cael ei dreialu; yn ddibynnol ar arweiniad y Cynulliad ac fe ddylid ei werthuso yn y gobaith y gellid ei ehangu ar raddfa cenedlaethol.

Mewn perthynas ag addysg bellach nodwyd yr angen greu gyfundrefn addysg bellach a fyddai'n cynhyrchu cenedl o bobl hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd cymdeithasol a'r byd gwaith.

Datganoli - Canmolwyd polisi recriwtio Elwa o safbwynt datganoli. Gwnaed cais ar i'r Cynulliad i osod yr un arweiniad.

CLO

Yn sicr y mae gennym fodd - y cyfryngau, arweinyddion cymdeithas, sefydliadau, prosiectau, cynlluniau a'r potensial i gynnwys y Gymraeg o'u mewn yn eheangach ond cael arweiniad clir gan y Cynulliad.

Yn ôl Kaplan yn ei lyfr ''Language planning, from practice to theory'' nid yw'r defnyddiwr cyffredin yn rhan o'r broses benderfynu:-

''the traditional participants in language policy and planning have come from what Kaplan (1989) refers to as 'top down' language planning situations. These are people with power and authority who make language related decisions for groups, often with little or no consultation with the ultimate language learners and users.''

Gobeithiwn i holl dystiolaeth llawr gwlad Powys fod o gymorth i'r Arolwg Iaith hwn ac y bydd y Cynulliad yn dychwelyd i Bowys eto i gyd weithio ymhellach ar y gwaith o ddatblygu polisïau newydd a chynhwysol.

Cydnabyddiaeth

Newby H (1985) Green and Pleasant Land? Penguin

Philips M (1993) Rural gentrification and the process of class colonisation, Jopurnal of Rural Studies, 9,2, 123 - 140.

Shucksmith, M (2000b) Exclusive countryside? Social Inclusion and Regeneration in Rural Britain, Joseph Rowntree Foundation.